

CYNLLUN GWERS CALCH			
Pwnc	Uned	Gwers	Cyfnod Allweddol
Hanes	3	Bywyd yn y chwarel	CA2/3
<p>Amcanion dysgu: Erbyn diwedd y wers, dyma beth ddylai'r disgyblion fod wedi'i ddysgu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd rhai disgyblion yn deall y peryglon roedd chwarelwyr yn eu hwynebu bob dydd. • Bydd mwyafrif y disgyblion yn deall sut mae bywyd heddiw'n cymharu â bywyd chwarelwr. • Bydd pob disgybl yn deall pa mor anodd oedd bywyd chwarelwr. 			
<p>Geiriau allweddol: chwarel, calch, fflach, tynnu, odyn</p>			
<p>Cyflwyniad: www.britishpathe.com/video/quarry-and-goat-issue-title-hot-and-cold</p> <p>Bydd y dosbarth yn gwylio fideo o ffrwydrad chwarel ac yn trafod y peryglon a oedd yn wynebu'r gweithwyr. Cyflwynwch chwareli a pheryglon gweithio ynddyn nhw trwy gyfrwng y PowerPoint.</p>			<p>Amseru (Yn seiliedig ar 60 mun)</p> <p>5-10 mun</p>
<p>Prif ran: Dilyn y PowerPoint fel cyflwyniad i ffermwyr lleol yn cynhyrchu calch ar gyfer eu tiroedd. Roedd ffermwyr (neu chwarelwyr fel roedden nhw hefyd yn cael eu galw pan fydden nhw'n gweithio yn y chwarel) yn llosgi'r calchfaen i greu calch. Roedd odynau fflach ac odynau tynnu yn ddau fath o odyn roedden nhw'n eu defnyddio i wneud hyn.</p> <p>Gweithgaredd un: Bydd angen i'r disgyblion dynnu lluniau o odynau fflach ac odynau tynnu yn eu llyfrau a'u labelu. (Yn dibynnu ar y cyfnod allweddol, gallai hyn gymryd mwy o amser nag a nodir.)</p> <p>Yn dilyn hyn, gall y disgyblion ateb dau gwestiwn yn eu llyfrau.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng odyn fflach ac odyn dynnu? 2. Pam roedd odyn dynnu yn cynhyrchu mwy o galch? 			<p>5 mun</p> <p>10-15 mun</p> <p>5 mun</p>
<p>Gweithgaredd dau: Yn dilyn y PowerPoint, gofynnir i'r disgyblion feddwl yn fwy manwl am ddiwrnod ym mywyd chwarelwr a llenwi'r siart cylch gan ddefnyddio'r wybodaeth ar y PowerPoint. Rhodir siart cylch i'r disgyblion ei llenwi sy'n cynrychioli oriau'r dydd roedd y chwarelwyr yn eu treulio ar dasgau penodol. Gall y disgyblion wedyn lenwi siart cylch arall i gynrychioli'r oriau yn eu diwrnod nhw.</p>			<p>15 mun</p>
<p>Cwestiynau</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. O gymharu â'ch diwrnod chi, ydych chi'n meddwl bod bywyd bob dydd chwarelwr yn galed? Eglurwch eich ateb. 2. Roedd mwyafrif y chwarelwyr yn ffermwyr a oedd yn gweithio yn y chwareli er mwyn cael calch ar gyfer eu tiroedd. Pam roedd calch mor bwysig? 			<p>5-10 mun</p>
<p>Sesiwn lawn: Dod i gasgliad trwy drafodaeth ddosbarth ar beryglon bod yn chwarelwr, ynghyd â'r anawsterau eraill a oedd yn wynebu'r ffermwyr/chwarelwyr.</p>			<p>5 mun</p>

Gwahaniaethu: Mae ffrâm ysgrifennu ar gael i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer y cwestiynau.

Gallai disgyblion mwy galluog a thalentog ysgrifennu naratif ar ‘Diwrnod ym mywyd chwarelwr’. Dylai’r disgyblion geisio empathyddio â bywyd y chwarelwr. Gellid hefyd ddefnyddio hyn fel asesiad.

Asesu: Trwy gyfrwng cwestiwn ac ateb ar ddiwedd y wers, y dasg asesu neu’r dasg ymestynnol, neu wrth farcio gwaith gorffenedig.

Adnoddau: PowerPoint, clip newyddion Pathe, siart cylch diwrnod ym mywyd chwarelwr/fy niwrnod i, taflen wybodaeth diwrnod ym mywyd chwarelwr, fframiau ysgrifennu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, taflen waith asesu/disgyblion mwy galluog a thalentog

Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:

Rhifedd - gellir cysylltu’r wers hon â rhifedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Y disgyblion yn cynrychioli data trwy ddefnyddio siartiau cylch*

Literacy - gellir cysylltu’r wers hon â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Cyfrannu at drafodaeth grŵp*
- *Gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau wrth ymateb i safbwyntiau*
- *Dewis y prif bwyntiau o’r testunau a nodi sut mae gwybodaeth a thystiolaeth yn cael eu defnyddio i’w cefnogi.*
- *Ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr o bwnc gan gyflwyno gwybodaeth, prosesau a syniadau yn eglur ac yn briodol i’r diben.*